

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026

Amcanion

Mae WAHWN yn elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant. Ei gweledigaeth yw galluogi'r celfyddydau a chreadigrwydd i drawsnewid iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion, cymunedau a gofal iechyd yng Nghymru. Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd:

- arloesi
- cynhwysiant
- cydweithio
- ymrwymiad i newid cymdeithasol positif
- ymrwymiad i hyrwyddo llesiant pawb rydym ni'n gweithio gyda nhw ac iddyn nhw

Ein dibenion, fel y'i gosodir yn y ddogfen lywodraethu yw: hyrwyddo a chynnal iechyd da er budd y cyhoedd yng Nghymru drwy ddefnydd o'r celfyddydau, yn arbennig ond nid yn unig drwy hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o fuddion y celfyddydau wrth hyrwyddo iechyd, a darparu eiriolaeth, ymchwil, hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd a'r celfyddydau i gyflawni gwaith o'r fath.

Ein cenhadaeth yw cefnogi, datblygu ac ymchwilio i ymarfer yn y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru. Gan adeiladu ar ein rhwydweithiau sefydledig o aelodau, arweinyddiaeth y gwasanaeth iechyd a fforymau cynllunio allweddol megis Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau ac Iechyd, ein bwriad yw:

- Cysylltu a grymuso gwneuthurwyr newid ar draws ecoleg y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru.
- Meithrin dylanwad gwleidyddol i gefnogi grym trawsnewidiol y celfyddydau a chreadigrwydd ar gyfer iechyd a llesiant.
- Hyrwyddo a chefnogi arloesi creadigol i drawsnewid systemau gofal iechyd yng Nghymru.
- Cynyddu gwydnwch ac effaith artistiaid, ymarferwyr a sefydliadau celfyddydol i gyflawni gwaith artistig sy'n cyd-fynd â deilliannau iechyd a llesiant.

Amcanion Strategol

Yn ystod 2025-26, prif amcanion WAHWN oedd:

1. Eiriolaeth: cynrychioli sector y celfyddydau ac iechyd mewn cynllunio allweddol gan gynnwys polisïau, strategaethau a fframweithiau Llywodraeth Cymru
2. Gwelededd: codi proffil gweithgareddau celfyddydau ac iechyd i artistiaid, ymarferwyr iechyd, llunwyr polisïau, cyllidwyr a'r cyhoedd a'r rôl y gallant eu chwarae mewn iechyd a gofal
3. Cymorth i'r Sector: cefnogi ymarferwyr yn ecoleg celfyddydau ac iechyd Cymru, gan ymateb i anghenion a nodir yn y sector.
4. Cyfnewid Gwybodaeth: rhannu a lledaenu gwaith y sector sy'n rhagorol, arloesol ac yn cael effaith yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
5. Llywodraethu a Rheoli: llunio ein prosesau, systemau a llywodraethu'n unol â safonau ymarfer gorau i gynorthwyo i wireddu'r uchelgais

Cyflawniad a Pherfformiad yn 2025-26:

Mae Ymddiriedolwyr-Gyfarwyddwyr WAHWN wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd a sut mae ein gweithgareddau'n bodloni'r nodau ac amcanion rydym ni wedi'u gosod ar gyfer y sefydliad a'r rhaglen.

Roedd eleni'n flwyddyn o gyfle sylweddol i WAHWN ac i sector y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru. Ceir cydnabyddiaeth gynyddol na all sectorau unigol sy'n gweithio ar eu pen eu hunain fynd i'r afael â nifer o'r heriau sy'n wynebu Cymru, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd, llesiant meddwl gwael, ynysu cymdeithasol a phwysau ar y gwasanaethau cyhoeddus, a bod angen ffocws polisi cynyddol ar atal a chydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Rhwydwaith Celfyddydau Iechyd a Llesiant Cymru (WAHWN) yn cefnogi'r llywodraeth, partneriaid traws-sector (gan gynnwys iechyd, diwylliant, yr amgylchedd) a chymunedau lleol i weithio gyda'i gilydd. Mae ein gwaith yn cyd-fynd â nodau ac ymddygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a gydag egwyddorion Marmot i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Drwy eiriolaeth, datblygu'r gweithlu, cyfnewid gwybodaeth a phartneriaethau strategol, mae WAHWN wedi parhau i gysylltu artistiaid, gweithwyr iechyd proffesiynol, ymchwilyr, llunwyr polisïau a chymunedau, cryfhau sector y celfyddydau ac iechyd a'r systemau y mae'n gweithredu ynddynt a helpu i sicrhau bod creadigrwydd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n cyfrannu at boblogaeth fwy iach, cymunedau cryfach a Chymru fwy cyfartal.

Gweithgareddau

Amcan 1: Eiriolaeth

Cryfhaodd WAHWN ei rôl yn eiriolwr cenedlaethol dros y celfyddydau, iechyd a llesiant wrth lunio polisiau yng Nghymru drwy ddatblygu a lledaenu Maniffesto cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Bu'n annog aelodau i ymgysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol ac i gefnogi galwadau ar i'r celfyddydau gael eu hymgorffori o fewn systemau iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol. Roedd y Maniffesto'n atgyfnerthu cyfraniad creadigrwydd at gyflawni'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant, y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Parhaodd WAHWN i gynrychioli'r sector drwy'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd, gan helpu i gynnal gwelededd gwleidyddol dulliau'n cynnwys y celfyddydau ac iechyd a chreu cyfleoedd i arddangos modelau y gellid eu hehangu oedd â'r gallu i gefnogi iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.

Bu WAHWN hefyd yn annog ymgysylltu yn y sector gyda'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Deddf Diwylliant Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafwyd cyfarfodydd rhwydwaith pwrpasol ac ymgysylltu uniongyrchol er mwyn cysylltu aelodau â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogi gwell dealltwriaeth a chyfraniadau gwybodus.

Amcan 2: Gwelededd

Lansiwyd Cynefin, rhaglen partneriaeth strategol a ddatblygwyd ar y cyd gan WAHWN ac uwch arweinwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Cyllidir Cynefin gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), a'i nod yw gosod y celfyddydau yn wasanaeth cyhoeddus rheng flaen a chryfhau dealltwriaeth o'r modd y gall y celfyddydau a chreadigrwydd gyfrannu at iechyd, llesiant, atal a gwydnwch cymunedol.

Yn 2026-27 bydd Cynefin yn blatfform lle gall iechyd, diwylliant, y byd academiaidd a chymunedau weithio gyda'i gilydd i ganfod datrysiadau ymarferol i heriau cymdeithasol a rennir a datblygu argymhellion polisi a all lywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

...

...

Sicrhaodd y rhaglen hyrwyddwyr ar lefel genedlaethol gan gynnwys:

- Yr Athro Isabel Oliver, Prif Swyddog Meddygol Cymru
- Dr Kathrin Thomas, Cymrawd Bevan a Chyd-gadeirydd Rhwydwaith Pen Dwfn Cymru
- Dafydd Rhys, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru
- Kathryn Lambert, Arweinydd Strategol y Celfyddydau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Amcan 3: Cymorth i'r Sector

Parhaodd WAHWN i gyflawni ei rôl fel prif sefydliad cymorth sector Cymru i ymarferwyr celfyddydau ac iechyd. Roedd mentrau'n cynnwys:

Camu i Mewn Mae'r fenter hon yn mynd i'r afael â bylchau yn y gweithle ac yn cyfrannu at weithlu iechyd creadigol mwy amrywiol a chynrychioliadol yn ogystal â chynorthwyo i gyflawni Cynllun Iaith Gymraeg WAHWN a blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru. Aed ati i ddewis ail garfan a chefnogi 12 o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i weithio mewn lleoliadau celfyddydau, iechyd a llesiant. Cynhelir gweithgaredd y rhaglen yn ystod 2026-27.

Bwrsariaethau Mynd i Weld Dyfarnwyd deg o fwrsariaethau i alluogi artistiaid o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgymryd â chyfleoedd datblygu proffesiynol, meithrin partneriaethau ac archwilio meysydd newydd o ymarfer gan gynnwys natur greadigol.

Rhaglen Dysgu gan Gymheiriaid Cafwyd ugain o sesiynau dysgu gan gymheiriaid i gefnogi prosiectau a gyllidwyd gan Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda'r sesiynau'n canolbwyntio ar ddatblygu theori newid; methodolegau gwerthuso; ysgrifennu astudiaethau achos cryf; deall llwybrau atgyfeirio presgripsiynu cymdeithasol; gwaith partneriaeth effeithiol a gwreiddio'r wyth Egwyddor Ansawdd Iechyd Creadigol. Mae adborth gan y carfannau'n pwysleisio ansawdd gwell y rhaglenni, hyder a chynladwyedd ymarfer iechyd creadigol ledled Cymru.

Amcan 4: Cyfnewid Gwybodaeth

Cynhaliodd WAHWN ddeg o gyfarfodydd rhwydwaith strategol ar-lein gyda 529 o bobl yn bresennol ar draws y flwyddyn, ar themâu a phynciau oedd wedi'u dewis gan aelodau gan gynnwys ymgysylltu ag ymgynghoriadau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru; ymyriadau iaith Gymraeg; arddangos ymarfer arloesol yn y celfyddydau a natur i helpu i wreiddio dulliau creadigol yn seiliedig ar natur mewn blaenoriaethau atal, presgripsiynu cymdeithasol a chynnaladwyedd ar draws Cymru.

Rhannwyd 20 o astudiaethau achos eraill ar ein gwefan, a chyrrhaeddodd y cylchlythyr misol 948 o danysgrifwyr bob mis. Cafwyd cynnydd o 48% yn nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd ail Gynhadledd genedlaethol ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam ym mis Medi 2025.

GWEHYDDU 2025 Ehangwyd cynhadledd ddwyflynyddol yr elusen, GWEHYDDU, i gwmpasu dau ddiwrnod, gan ddenu 300 o gynrychiolwyr o gyrff iechyd, celfyddydau, amgylcheddol, ymchwil, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus ac arddangos arferion arloesol wrth hwyluso dialog rhwng ymarferwyr, arweinwyr y GIG, ymchwilwyr a llunwyr polisiâu. Sicrhodd y gynhadledd nawdd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y prif gyflwyniadau'n cynnwys Syr Michael Marmot, Athro Epidemioleg yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain; Sandy Clubb, Swyddog Gweithredu Polisi, Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Heledd Fychan, AS (a benodwyd yn ddiweddarach yn Weinidog Cabinet dros y Celfyddydau a Chwaraeon); Emily van de Venter, Arweinydd Iechyd Meddwl yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dafydd Rhys, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y gydnabyddiaeth gynyddol i rôl hanfodol y celfyddydau mewn systemau sy'n ceisio gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldeb.

Amcan 5: Llywodraethu a Rheoli

Yn dilyn adolygiad o'r bwrdd, penododd WAHWN bedwar aelod newydd i'r bwrdd drwy broses recriwtio agored, gan ddewis Ymddiriedolwyr-Gyfarwyddwyr newydd i ehangu'r amrywiaeth o sgiliau, profiad a gwybodaeth ar y Bwrdd. Parhaodd WAHWN i fuddsoddi mewn datblygu llywodraethu a strategaeth, gan gynnal Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd i'r staff a'r bwrdd gydag ymgynghoriaeth Newydd. Gan gydnabod rôl a phwysigrwydd hanfodol prosiectau natur greadigol yn ecoleg y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru, dechreuwyd ar adolygiad o bolisi a chynllun gweithredu amgylcheddol WAHWN

Cyflawniadau

Mae gwaith WAHWN yn cyfrannu at ddeilliannau y tu hwnt i brosiectau unigol. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr elusen i gryfhau'r seilwaith sy'n galluogi i weithgaredd yn y celfyddydau, iechyd a llesiant ffynnu ledled Cymru. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'i effaith:

- 330 o gynrychiolwyr yn GWEHYDDU
- Cyflwyno 20 o sesiynau dysgu gan gymheiriaid gyda 150 yn bresennol
- Cynnal 10 o gyfarfodydd rhwydwaith strategol gyda 529 yn bresennol
- Cynnydd o 18% yn nifer yr aelodau newydd, gan gynnwys 20 o weithwyr iechyd proffesiynol newydd a 35 o aelodau trydydd sector newydd
- Dyfarnu 10 o Fwrsariaethau Mynd i Weld
- Comisiwn gan awdurdod lleol i ddatblygu rhaglen hyfforddi celfyddydau ac iechyd
- Partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i beilota rhaglen atgyfeirio celfyddydau gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gwledig
- 12 o artistiaid Cymraeg eu hiaith yn cael budd o Camu i Mewn
- Sicrhau cyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i Cynefin
- Sicrhau Cyllid Aml-Flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru hyd at 2028
- Cydnabyddiaeth genedlaethol drwy Wobr Practising Well gan y Culture, Health & Wellbeing Alliance i raglen llesiant artistiaid Sut Mae'n Mynd?
- Sicrhau hyrwyddwyr cenedlaethol blaenllaw drwy Cynefin gan gynnwys Prif Swyddog Meddygol Cymru
- Codi proffil partneriaethau celfyddydau ac iechyd Cymru drwy gynnwys astudiaeth achos yn adroddiadau Sefydliad Baring Creatively Minded and Green a Creative Ageing a chyflwyniadau drwy raglen Cynefin

Y tu hwnt i'r metrigau hyn, mae WAHWN yn parhau i ddylanwadu ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus, systemau iechyd, sefydliadau diwylliannol a llunwyr polisïau'n deall rôl creadigrwydd wrth wella llesiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Wrth i Gymru ddatblygu i fod yn Genedl Marmot, mae WAHWN mewn gwell sefyllfa i gefnogi partneriaid sy'n chwilio am ddulliau ymarferol, a arweinir gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer atal ac iechyd y boblogaeth.

Cynllunio ar gyfer Cyfnodau'r Dyfodol

Mae Cymru'n dechrau ar gyfnod arwyddocaol o gyfleoedd ar gyfer y celfyddydau, iechyd a llesiant gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfraniad diwylliant at ddeilliannau iechyd a llesiant yn creu amodau ffafriol ar gyfer datblygiadau pellach yn y sector.

Mae WAHWN mewn safle unigryw i weithredu fel cysylltydd cenedlaethol i alluogi cydweithio rhwng sectorau sydd yn draddodiadol wedi gweithredu ar wahân. Wrth i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio'n gynyddol ar atal, cydraddoldeb a llesiant hirdymor, mae ein rôl ni fel brocer, yn eiriol ac yn meithrin gallu yn debygol o ddod yn bwysicach fyth. Yn ystod 2026-27 bydd WAHWN yn canolbwyntio ar:

Eiriolaeth

- Dylanwadu ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru
- Cefnogi'r trawsnewid yng Nghymru at egwyddorion Marmot a gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd
- Datblygu offer a metrigau sy'n mesur ac yn rhannu effaith, er mwyn cefnogi trawsnewid yn y sector

Gwelededd

- Cryfhau cydweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid y GIG.
- Meithrin partneriaeth strategol gyda NICE i gefnogi integreiddio'r celfyddydau a diwylliant yn y strategaeth y mae'n ei datblygu
- Cynrychioli'r sector yn y Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd a digwyddiadau strategol gan gynnwys cynhadledd Conffederasiwn GIG Cymru a chynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cymorth i'r Sector

- Llunio gweithrediad yr argymhellion sy'n deillio o raglen Cynefin.
- Cyflwyno rhaglen Camu i Mewn i 12 o ymarferwyr a ddewisir o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cefnogi aelodau i gyfrannu at offerynnau llesiant Hapus Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Datblygu llwybrau ar gyfer sicrhau ansawdd a datblygu proffesiynol i'r gweithlu celfyddydau ac iechyd gan gynnwys Egwyddorion Iechyd Creadigol
- Cydweithio gyda Chonsortium Celf Cymraeg CCC i gynyddu'r nifer o ymarferwyr Cymraeg eu hiaith a gosod y Gymraeg yng nghanol creadigrwyd

Cyfnewid Gwybodaeth

- Ehangu partneriaethau gyda Rhwydwaith Cenedlaethol y Celfyddydau mewn Ysbytai a Byrddau Iechyd Prifysgol
- Ychwanegu at fanc gwybodaeth WAHWN gan gynnwys o leiaf 30 astudiaeth achos

Llywodraethu a Rheoli

- Datblygu polisi a chynllun gweithredu amgylcheddol cyfannol sy'n modelu arferion gorau i'r sector ac yn gosod natur wrth galon ymarfer y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru
- Adolygu aelodaeth y bwrdd a recriwtio'n agored ar gyfer o leiaf un aelod newydd
- Datblygu cynllun Strategol newydd sy'n mynd i'r afael â themâu a nodwyd yn ystod diwrnod cwrdd i ffwrdd y bwrdd, gan gynnwys achredu, datblygu'r sector ac eiriolaeth

Budd y Cyhoedd

- Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 Deddf Elusennau 2011 i roi ystyriaeth ddyladwy i ganllawiau budd y cyhoedd a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau. Cafodd yr holl weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn eu cynllunio i gyflwyno budd sylweddol i'r cyhoedd, gan gynnwys gwell iechyd meddwl a llesiant.

Adolygiad Ariannol

Mae WAHWN yn parhau mewn sefyllfa ariannol sefydlog. Cyfanswm incwm y flwyddyn oedd £161,866 gyda gwariant o £158,566. Caiff y gwarged o £3,300 ei ddwyn ymlaen i gynorthwyo gyda chyflenwi rhaglenni'r dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i fonitro perfformiad ariannol yn fanwl ac yn canolbwyntio ar gronni cronfeydd wrth gefn priodol. Roedd y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn yn £17k, a fyddai'n galluogi tri mis o weithgaredd, ac yn adeiladu at y targed o £25k.

Mae WAHWN wedi nodi mai'r risgiau allweddol yw dibyniaeth ar dîm staff o ddau unigolyn, a nifer cyfyngedig o ffynonellau incwm. Byddai colli adnoddau dynol neu ariannol yn cael effaith sylweddol ar y gallu i gyflawni er budd y cyhoedd. Mae bwrdd ymddiriedolwyr WAHWN yn gweithio gyda'r tîm gweithredol i sicrhau gwell gwydnwch ariannol drwy gynllunio i godi arian ac amrywio'r incwm.

Busnes Hyfyw

Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod yr elusen yn fusnes hyfyw. Rydym ni wedi sicrhau ymrwymadau cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac mae gennym gynlluniau cadarn ar waith i amrywio ffrydiau incwm a rheoli costau'n effeithiol.

Diolchiadau

- Cyngor Celfyddydau Cymri
- Bwrdd Ymddiriedolwyr WAHWN
- Staff a gweithwyr llawrydd WAHWN

Cysylltwch

info@wahwn.cymru

www.wahwn.cymru

facebook.com/wahwn

instagram.com/wahwn

bluesky.app/wahwn

x.com/wahwn

youtube.com/wahwn

© Wales Arts Health & Well-being Network

Mae WAHWN Limited yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn Elusen gofrestredig.

Rhif Cwmni: **14111464**

Rhif Elusen: **1209241**

Cyfeiriad Cofrestredig:

34 Dewing Avenue, Maenorbŷr, Sir Benfro, SA70 7TS